



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Arweiniad i'r Warchodfa
Reserve Guide



Gwarchodfa Natur Genedlaethol **Oxwich**

National Nature Reserve

// Cymysgedd gwych, llawn bywyd gwylt,
o dwyni, coetiroedd a gwlyptiroedd
A wildlife-rich super mix of dunes,
woodlands and wetlands



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Oxwich

Cymysgedd gwych, llawn bywyd gwylt, o dwyni, coetiroedd a gwlyptiroedd

Mae twyni tywod, llynnoedd, coetiroedd, clogwyni, morfeydd heli a chorsydd dŵr croyw i gyd yn rhan o'r warchodfa arfordirol amrywiol hon.

Mae'n brin cael cynifer o wahanol gynefinoedd mewn ardal mor gymharol fach yn y DU sy'n cynnal dros 600 o rywogaethau o blanhigion blodeuol yn unig!

Mae gan y warchodfa draeth gwych, ond os cerddwch i mewn i'r tir rhyw ychydig, bydd llawer o fywyd gwylt i chi ei ddarganfod.



Welcome to Oxwich National Nature Reserve (NNR)

A wildlife-rich super mix of dunes, woodlands and wetlands

Sand dunes, lakes, woodlands, cliffs and salt and freshwater marshes are all part of this varied coastal reserve.

It's rare in the UK to have so many different habitats in such a relatively small area which supports over 600 species of flowering plants alone!

The reserve has a wonderful beach, but walk a little way inland and there's a wildlife oasis here for you to discover.





Beth allwch chi ei wneud fan hyn?

Ewch i gael diwrnod gwych yn neidio'r tonnau, archwilio'r pyllau glan môr, darganfod y twyni, gwyllo bywyd gwylt y llynnoedd o'n cuddfan adar yn Whitestones a mwynhau'r golygfeydd anhygoel dros y bae tuag at Ddyfnaint.

Yr adeg orau i ymweld

Mae dechrau'r haf yn amser gwych i fwynhau'r amrywiaeth rhyfeddol o flodau gwylt lliwgar, fel teim gwylt, glesyn-y-gaeaf deilgrwn a llu o degeirianau ysblennydd. Cadwch eich llygaid ar agor hefyd am y 27 math gwahanol o löyn byw a geir yma!



Allwedd / Map Key



Ffin GNG
NNR Boundary



Cuddfan gwyllo adar
Bird hide



○○○○○○○○
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



Parcio
Parking

© Airbus Defence & Space a Getmapping.
Atgynhychwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru
(Taliadau Gwledig Cymru) - Mawrth 2017


© Airbus Defence & Space and Getmapping.
Reproduced by permission of Welsh Government
(Rural Payments Wales) - March 2017


What can you do here?

Experience a great day out here jumping in the surf, exploring the rock pools, discovering the dunes, watching lake wildlife from our birdhide at Whitestones, and taking in the incredible views looking across the bay towards Devon.

When is the best time to visit?

Early summer is a great time to enjoy the amazing array of colourful wildflowers, such as wild thyme, round-leaved wintergreen and many spectacular orchids. Also look out for our 27 species of butterfly!





Coed Nicholaston
Nicholaston Woods

Llynnoedd dŵr croyw
Freshwater lake

Corstir
Oxwich
Marsh

Llynnoedd dŵr croyw
Freshwater lake

Twyni tywod
Sand dunes

Dŵr Uchaf Cymedig | Mean High Water

Bae
Oxwich
Bay



OXWICH

© Airbus Defence & Space a Getmapping.
Atgynhychwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru
(Taliadau Gwledig Cymru) - Mawrth 2017

© Airbus Defence & Space and Getmapping.
Reproduced by permission of Welsh Government
(Rural Payments Wales) - March 2017





LLWYBR COED NICHOLASTON

Gradd: Cymedrol

Pellter: 2½m/4km

Amser: 1-1½ awr

Uchafbwyntiau:

Blodau'r gwanwyn, hen goed a golygfeydd syfrdanol o Fae Oxwich.



LLWYBR TWYNI A THRAETH

Gradd: Cymedrol

Pellter: 3m/4.8km

Amser: 1½-2 awr

Uchafbwyntiau:

Tegeirianau a blodau gwyllt cynnar yr haf yn y twyni a darganfod 'traeth y flwyddyn'.



LLWYBR CYSWLLT



NICHOLASTON WOODS WALK

Grade: Moderate

Distance: 2½m/4km

Time: 1-1½ hours

Highlights:

Spring flowers, old trees and breathtaking views of Oxwich Bay.



BEACH & DUNES WALK

Grade: Moderate

Distance: 3m/4.8km

Time: 1½-2 hours

Highlights:

Early summer orchids and wildflowers in the dunes and discovering a 'beach of the year'.



LINK PATH

Beth arall allaf ei wneud fan hon?

Ar y llwybr pren

Croeswch y ffordd o'r maes parcio a bydd llwybr pren helaeth yn cadw'ch traed yn sych wrth ichi groesi'r corstir dŵr croyw a'r gwelyau cyrs gan wyllo a gwrando am adar y gwlyptir.

Ystafell gyda golygfa

Mwynhewch heddwch ein cuddfan adar ar y gors. Chwiliwch am yr hwyaid amrywiol, rhegennod y dŵr, gwyachod bach ac ieir dŵr ar y llyn.

What else can you do here?

On the boardwalk

Cross the road from the car park and an extensive boardwalk will keep your feet dry as you cross the freshwater marsh and reedbeds watching and listening for wetland birds.

Room with a view

Enjoy the peace and quiet of our bird-hide on the marsh. Look out for the various ducks, water rails, little grebes and moorhens on the lake.



Twyni Oxwich – Hafan i Flodau Gwylt

Darganfod tegeirianau yn y twyni

Mae twyni Oxwich yn lle gwych i weld tegeirianau gwylt ar ddiwedd mis Mai a Mehefin. Mae cregyn wedi'u malu o'r traeth yn chwythu i mewn i'r tir ac yn rhoi iddynt y pridd calchaid maen nhw'n ei ffafrio.

Chwiliwch am degeirianau bera, tegeirian-y-gors ddeheuol a chynnar, a thegeirian y wenynen.

Ar frig y gynghrair blodau gwylt

Oxwich yw un o'r systemau twyni tywod mwyaf amrywiol ei flodau yng Nghymru. Mae'n gartref i'r crwynllys Cymreig prin ac amrywiaeth o flodau gwylt lliwgar gan gynnwys sawl math o degeirian.

Amser byrbryd

Mae'r chwilen broc môr brin iawn (neu chwilen 'y traethlin') yn cysgodi dan froc môr ar y traeth ac yn chwilio am ei hoff fyrbryd – y chwannen draeth.

'Traeth y Flwyddyn'

Oxwich yw'r un o draethau mwyaf mawreddog Cymru, sydd wedi'i ddyfarnu'n 'Draeth y Flwyddyn y DU' ddwywaith.



chwilen broc môr
beachcomber beetle

Jessica Winder



crwynllys Cymreig
dune gentian



Oxwich's Dunes – Wildflower Heaven

Discover orchids in the dunes

Oxwich's dunes are a great place to see wild orchids in late May and June. Crushed shells from the beach blow inland and provide them with the chalky soil they prefer.

Look out for pyramidal, southern marsh, early marsh and bee orchids.

Top of wildflower league

Oxwich has one of the most florally diverse sand dune systems in Wales. It's home to the nationally rare dune gentian and a variety of colourful wildflowers including many species of orchid.

Snack time

The very rare beachcomber beetle (or 'strandline' beetle) shelters under driftwood on the beach and looks out for a favourite snack – sandhoppers.

A 'Beach of the Year'

Oxwich is one of the Wales' most prestigious beaches, twice awarded with 'UK Beach of the Year'.



y glesyn bach
small blue butterfly

9



tegeirian y wenynen
bee orchid



Gwlyptiroedd Oxwich – O'r Llyn 'Nadreddog' i'r Siglen

Ail-greu Llyn

Morfa heli oedd y gors yn wreiddiol, yn agored i'r môr, ond yn 1790 adeiladwyd morglawdd a chafodd llyn 'nadreddog' ei greu, gyda'r bwriad o ddynwared Llynnoedd y Serpentine yn Hyde Park, Llundain! Cafodd gweddill y tir ei ddefnyddio fel llifddolydd i wartheg a defaid gael pori arnynt. Ers hynny, mae'r llyn a'r gors wedi llenwi â silt ac wedi troi'n siglen llawn cyrs.


Hafan bywyd gwyllt corsiog

Mae'r llynnoedd a'r gors yn hafan i fywyd gwyllt gan gynnwys dyfrgwn, adar dŵr ac ambell i aderyn ymfudol fel adar y bwn neu bibyddion llydandroed llwyd. Pryfyn prin yn yr ardal gorsiog yw'r gwas neidr blewog. Mae'n hela ar draws y dŵr ac yn bwydo ar bryfetach llai, y mae'n eu cario i ffwrdd i glwyd ac yna'n eu lloccio.

tegeiran-y-gors ddeheuol
southern marsh orchid



© Hans Hillewaert



aderyn y bwn
bittern



Oxwich's Wetlands – From Serpentine Lake to Swamp

Copycat lake

The marsh was originally saltmarsh, open to the sea, but a sea wall was built in 1790 and a serpentine lake was dug, intended to mimic the Serpentine Lakes in London's Hyde Park! The remaining land became water meadows for cattle and sheep grazing. Since then both lake and marsh have silted up to become a reed-filled swamp.

A marshy wildlife haven

The lakes and marsh are a haven for wildlife including otter, wildfowl and the occasional migrant such as bittern or grey phalarope. A rare insect of the marshy area is the hairy dragonfly. It hunts across water and feeds on smaller insects, which it carries off to a perch and then devours.

© Francesco Veronesi

gwas neidr blewog
hairy dragonfly





Coed Nicholastan – O Grafanc-yr-arth Ddrewllyd i Gelynnen Fair

Tras hir

Mae Coedwig Nicholastan yn goetir hynafol, sy'n golygu y cafodd ei gofnodi cyn 1600. Mae wedi'i defnyddio ers canrifoedd at ddibenion pren, hamdden ac erbyn hyn, cadwraeth natur. Fe sylwch ar y sawl gwahanol fath o goeden wrth i chi gerdded trwy'r goedwig. Gwrandewch am sŵn gwichian y coed ynn a derw aeddfed sydd fel cewri dros y coed ifanc a blodau'r coetir.

Lle gwych am ystumod

Mae cân yr adar yn amlwg drwy'r amser, a chynigia'r wawr a'r cyfnos arddangosfa wych o ystumod yn hela am bryfetach. Mae'r cyfuniad o gorsydd, llynnoedd a choedwigoedd yn golygu bod gwledd i ddewis o'u plith a manau da i glwydo. Ymhlith y rhywogaethau mae'r ddau fath o ystum trwyn pedol gyda'u trwyn siâp pedol.

Cadwch lygad am y crafanc-yr-arth

Cadwch lygad am yr arddangosfa drawiadol o flodau gwyllt yn y gwanwyn gan gynnwys clychau'r gog a chraf gwyllt, ond planhigion mwy hynod hefyd sy'n cynnwys crafanc-yr-arth ddrewllyd a maenhad gwyrddlas sy'n cuddio mewn pocedi ar y clogwyni calchfaen. Gofalwch rhag y celynnen Fair anarferol o bigog sy'n dwyn ffrwyth trwy'r flwyddyn gron - os cerddwch drwyddo, fe deimlwch pam ei fod yn cael ei alw'n celyn y ben-glin hefyd - rydych chi wedi cael eich rhybuddio!

Nicholaston Woods - From Stinking Hellebore to Butcher's Broom

A long pedigree

Nicholaston Woods is an ancient woodland, meaning it was recorded before 1600. It has been used over the centuries for timber, recreation and now nature conservation. You will notice many different types of tree as you walk through the woods. Listen for the creaking of mature ash and oaks towering over young saplings and woodland flowers.

A bat-tastic place

Bird song is ever apparent, and dusk and dawn offers a spectacular display of bats on the hunt for insects. The combination of marsh, lakes and woods means rich pickings for them and good roosting places. Species include both types of horseshoe bats, with their horseshoe-shaped nose.

Watch out for the butcher's broom

Look out for the spectacular display of wildflowers in spring including bluebells and wild garlic, but also for more obscure plants include stinking hellebore and purple gromwell hiding in pockets on the limestone cliffs. Beware of the unusually spiky butcher's broom which has berries all year round - if you walk through it you will feel why it also called knee holly - not advised!



ystlum trwyn pedol
horseshoe bat

© Joxerra Alhartzza



celynnen Fair
butcher's broom



crafanc-yr-arth ddrewllyd
stinking hellebore

© Wildpreuer



Er Eich Diogelwch:

- Peidiwch â phalu tyllau neu dwneli yn y twyni tywod – mae tywod yn gallu dymchwel a'ch mygu chi.
- Gall y tonnau fod yn gryf ar brydiau – byddwch yn ofalus wrth nofio neu ddefnyddio cychod gwynt.
- Byddwch yn ymwybodol o fwd/tywod meddal a pheidiwch â mynd allan i'r foryd – mae'r llanw yn gallu eich ynysu'n gyflym.
- Edrychwch i weld beth yw cyflwr y llanw.
- Peidiwch â chywrrdd ag unrhyw weddillion milwrol – gallai ffrwydro! Rhowch wybod i'r Heddlu am unrhyw bethau amheus drwy ffonio 999.
- I helpu adar Oxwich, cadwch gŵn ar dennyn o fis Mawrth tan fis Gorffennaf i ddiogelu adar sy'n nythu ar yr arfordir ac ar laswelltir, a hefyd yn ystod diwedd yr hydref a'r gaeaf ger y llynnoedd a'r corstir i warchod adar gwyllt sy'n gaeafu.



For Your Safety:

- Do not dig holes or tunnels in the sand dunes - sand can collapse and suffocate you.
- Waves can be strong at times - take care while swimming or using inflatables.
- Be aware of soft sinking mud/sand and do not go out onto the estuary - the incoming tide can quickly cut you off.
- Check the state of the tide.
- Do not touch any military debris - it may explode! Report any suspect objects to the Police by calling 999.
- To help Oxwich's birds please keep dogs on a lead from March - July to safeguard shore and grassland nesting birds, and during late autumn-winter around the lakes and marsh to protect wintering wildfowl.



Cyfarwyddiadau:

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich 13 milltir i'r gorllewin o Abertawe ar Benrhyn Gŵyr, ar isffordd oddi ar A4118 yn union y tu allan i bentref Oxwich.

Cyfeirnod Grid: SS 502 865

 Chwiliwch am Warchodfa Natur Genedlaethol Oxwich ar Facebook

Directions:

13 miles west of Swansea on the Gower Peninsula, on a minor road off the A4118 just outside the village of Oxwich.

Grid reference: SS 502 865

 Find Oxwich National Nature Reserve on Facebook

0300 065 3000

www.cyfoethnaturiol.cymru

www.naturalresources.wales

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

If you would like this information in an alternative format, please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Argraffwyd ar bapur Cocoon offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Cocoon offset 100% recycled paper